# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU DYDD IAU, 15 MEDI 2016

**Yn bresennol:**

**Aelodau'r Pwyllgor Pensiynau**

Y Cynghorwyr W Tudor Owen, Stephen Churchman, Trevor Edwards, Peredur Jenkins, John P. Roberts, Glyn Thomas (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**Aelodau'r Bwrdd Pensiwn**

Cynghorydd Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd), Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru),Osian Richards (Cyngor Gwynedd) a Tony Deakin (Cartrefi Conwy)

**Cynrychiolwyr Cyflogwyr**

Alison Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Kate Jones (CAIS), Marc Jones (Cyngor Sir Ynys Môn). Martin Morris (Cyngor Gwynedd), Katherine Owen (Cyngor Tref Caernarfon), Lynn Patterson (Cwmni Cynnal), Eurig Williams (Cyngor Gwynedd), Tony Walter (Cyngor Conwy)

**Staff sy'n Gwasanaethu'r Gronfa (Cyngor Gwynedd);**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau), Marina Parry Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau), Meirion Jones (Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau), Sharon Evans (Uwch Gyfrifydd), Ffion Madog Evans (Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol), Richard Owen (Dirprwy Reolwr Pensiynau), Glesni Gwilym Jones (Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn gadeirydd am y cyfarfod.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn is-gadeirydd am y cyfarfod.**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Seimon Glyn (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd H. Eifion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Sharon Warnes (Cadeirydd Bwrdd Pensiwn), Victoria Hallaron (Cartrefi Cymunedol Gwynedd / Bwrdd Pensiwn), Caroline Owen (Ysgol Bryn Elian), Kate Jackson (Comisiynydd Heddlu), Jackie Waddicor (Cyngor Tref Biwmares), Fiona Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Ann Coxton (Cyngor Tref Blaenau Ffestiniog), Kathryn

Coughlin (Grŵp Llandrillo Menai), Gwyn Jones (Ysgol Eirias), Angela Middleton-Jones (Grŵp Llandrillo Menai), Emyr Roberts (Parc Cenedlaethol Eryri), David O'Neill (CVSC), Paul McGrady (Cartrefi Cymunedol Gwynedd), Jo Cavill (Gyrfa Cymru), Geraint Owen (Cyngor Gwynedd), Helen Barritt (Cyngor Tref Conwy), Tina Earley, (Cyngor Tref Bae Colwyn), Caren Bryon (Cwmni Gyrfa), June Jeremy (WEA Cymru), Einir Wyn Griffith (Cyngor Gwynedd), Huw Ifor Jones (Conwy), Clifford Everett (Cyngor Tref Caergybi), Delyth Gwyn Williams (Cartrefi Cymunedol Gwynedd), Medrwn Môn a Chyngor Tref Llandudno.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. CRONFA BENSIWN

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Adroddiad Blynyddol y Cynllun Pensiwn am 2015/16.
Rhoddwyd sylw penodol i brif faterion yr adroddiad sef:

- **Perfformiad Buddsoddi**

<u>Gwerth asedau:</u>

Adroddwyd cynnydd yng ngwerth asedau'r Gronfa o £1,497m (31/03/2015) i £1,525m (31/03/2016) - cynnydd o £28m yn ystod y flwyddyn. Roedd y meincnod perfformiad safonol yn -0.3% ar gyfer 2015/16, ac felly lle i ddiolch i reolwyr y Gronfa am lwyddo i gael +1.3% mewn blwyddyn.

Rhwng 1af o Ebrill 2016 a'r 30 Mehefin 2016, nodwyd bod gwerth marchnad y Gronfa wedi codi £58m arall i £1,583m, ond yn dilyn refferendwm y Deyrnas Unedig ar aelodaeth Undeb Ewropeaidd a chanlyniad y bleidlais i adael, gwelwyd effaith uniongyrchol ar werth y bunt a chyfraddau llog y DU. Bu i'r marchnadoedd byd-eang wella ar ôl y gostyngiad gwreiddiol yn dilyn canlyniad y refferendwm, ond anodd oedd rhagweld effaith hir dymor penderfyniad 'Brexit' ar Gronfa Bensiwn Gwynedd.

Amlygwyd perfformiad rhagorol gan Veritas (buddsoddwyr mewn ecwiti ar ran y Gronfa) ynghŷd â pherfformiad da iawn gan Threadneedle ac UBS (buddsoddwyr mewn eiddo), a dychweliadau eithriadol o dda gan Partners Group yn 2015/16, wrth i fuddsoddiadau Ecwiti Preifat ddwyn ffrwyth, wedi buddsoddiad tymor hir gan y Gronfa i'r categori yma.

- **Cyd-fuddsoddi**

Adroddwyd bod Llywodraeth San Steffan wedi penderfynu pŵlio buddsoddiadau y CPLlL yn hytrach nac uno cronfeydd. Golygai hyn bod Cronfa Bensiwn Gwynedd am barhau ar wahân i gronfeydd fel Clwyd, Powys, ayb, ond bydd buddsoddiadau yn cael eu gwneud trwy strwythur cydweithredol. Ategwyd bod yr 8 Cronfa Gymreig eisoes wedi cychwyn cyd-fuddsoddi.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ("DCLG") yn mynnu cyflwyniadau gan holl gronfeydd Lloegr a Chymru, yn esbonio eu cynlluniau cydweithio a'r arbedion y disgwylid i'w cyflawni. Eglurwyd nad oedd prosiect cydweithio Cymru gyfan (gwerth deuddeg biliwn o bunnoedd) yn cyrraedd gofynion safonol y Trysorlys o ran maint (pump ar hugain biliwn), ond cytunodd y Llywodraeth y dylai'r gwaith cydweithio, barhau. Nodwyd bod strwythur llywodraethol y pŵl yn cael ei ddylunio, a chyfrifoldebau yn cael eu cytuno, cyn i'r strwythur newydd fod yn weithredol yn 2017. Y gobaith yw sefydlu cydbwyllgor llywodraethu, gydag un bleidlais arno i bob un o'r 8 Cronfa.

Bydd y drefn pŵl yn symud penderfyniadau apwyntio, monitro a therfynu rheolwyr buddsoddi unigol oddi wrth pob Cronfa. Fodd bynnag, bydd Pwyllgor Pensiynau Gwynedd yn parhau yn gyfrifol am y strategaeth fuddsoddi, a'r dyraniad asedau rhwng categorïau ecwiti, eiddo, ayb. sef y gyrrwr mwyaf arwyddocaol ar ddychweliadau buddsoddi.

Cyhoeddwyd bod gwybodaeth pellach am y cynlluniau cyd-fuddsoddi ar gael ar wefan y Gronfa.

Sicrhaodd y Cadeirydd bod yr atebolrwydd yn parhau yn lleol sydd yn galluogi i'r Gronfa ymateb i anghenion yr aelodau. Nododd mai'r cam nesaf fydd creu Cyd-Bwyllgor Cysgodol. Hyd yma, ategodd bod yr arwyddion yn galonogol gyda chydweithio buddiol rhwng Cadeiryddion yr 8 Cronfa, ac arbedion sylweddol eisoes wedi eu cyflawni ar y ffioedd am fuddsoddiadau ecwiti goddefol.

- **Bwrdd Pensiwn**

Adroddwyd bod cyfansoddiad Bwrdd Pensiwn Cronfa Gwynedd wedi ei sefydlu ym Mawrth 2015 a'r cyfarfod cyntaf wedi ei gynnal Gorffennaf 2015 (cyfeiriwyd at adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn oedd wedi ei gynnwys yn adroddiad y Gronfa). Eglurwyd bod gan y Bwrdd sylwebydd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, tra bod Cadeirydd y Pwyllgor yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, er mwyn bod yn atebol am benderfyniadau a pherfformiad, ochr yn ochr gyda swyddogion y Gronfa.

Ategodd y Cadeirydd ei fod yn croesawu lefel arall o lywodraethu fydd yn sicrhau'r gorau i'r Gronfa. Cadarnhaodd bod y Bwrdd Pensiwn yn herio a chraffu penderfyniadau'r Pwyllgor Pensiynau ac eisoes yn arsylwi cyfarfodydd.

- **Canlyniad y Prisiad**

Nodwyd bod canlyniad y prisiad actiwaraidd teirblynyddol 31 Mawrth 2016 i'w gyhoeddi mewn cyfarfod i'r holl gyflogwyr ar y 10fed o Dachwedd 2016 lle bydd Actiwari'r Gronfa yn cyflwyno'r canlyniadau. Anogwyd pob cyflogwr i fynychu'r cyfarfod hwnnw er mwyn deall y broses a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i gyrraedd cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr unigol.

Ategwyd bod yr Uned Weinyddu wedi bod yn trin data aelodaeth ar gyfer y prisiad dros gyfnod o fisoedd gydag adnoddau staff y Gronfa wedi cael ei

flaenoriaethu er mwyn sicrhau bod y data yn gywir. Gofynnwyd i'r cyflogwyr barhau i anfon data ei gweithwyr yn rheolaidd yn y dyfodol, fel bod yr adroddiadau yn fwy cywir.

Gyda sefyllfa pob cyflogwyr unigol o fewn y Gronfa yn wahanol, yn gyffredinol, dylai cryfder y Gronfa alluogi i gymryd dull hyblyg tuag at osod lefel cyfraddau cyfraniadau pensiwn cyflogwyr. Adroddwyd bod y swyddogion a'r actwari yn llwyr ymwybodol fod isafu unrhyw gynnydd mewn cyfraddau cyfraniadau yn bwysig o ystyried y wasgfa barhaus ar wariant cyhoeddus.

Y prif amcan fydd sicrhau bod gan gyflogwyr strategaethau cyfrannu fforddiadwy, teg, a chynaliadwy ar gyfer 2017/18 – 2019/20, ond bydd rhaid i hynny adlewyrchu amgylchiadau unigol y cyflogwr.

Adroddwyd bod dwy elfen o fewn cyfraniadau pensiwn cyflogwyr (employer contributions,
ddim yr employee contributions).

- Cyfradd y prif gyfraniad, sef "primary contribution rate", neu "future service rate"
- Cyfradd cyfrannu ychwanegol, sef "secondary contribution rate", neu "deficit recovery element"

Disgwylir i'r brif gyfradd ar gyfer ymrwymiadau'r dyfodol gynyddu, oherwydd gostyngiad yn y gyfradd disgowntio ("discount rate"). Eglurwyd bod yr actiwari yn disgowntio gwerth y pensiynau fydd yn gorfod talu allan yn y dyfodol er mwyn adnabod gwerth presennol net (NPV) yr ymrwymiadau rheiny. Ategwyd bod y gyfradd disgowntio yn gysylltiedig â dychweliadau bondiau'r Llywodraeth. Nodwyd fod y Llywodraeth wedi gostwng cyfraddau llog i lefel echrydus o isel er mwyn hybu'r economi. Un effaith o hynny yw bod gwerth presennol ymrwymiadau pensiwn yn uwch, oherwydd llai o effaith disgowntio.

Er hynny, nodwyd fod disgwyl gostyngiad yn y gyfradd cyfrannu ar gyfer adfer diffygion hanesyddol, oherwydd perfformiad gwell na'r disgwyl wrth fuddsoddi ar y farchnad stoc ers 2013, a bod disgwyl i'r "diffyg" hanesyddol leihau eto. Ym mhrisiad 2013, roedd lefel ariannu'r Gronfa yn 85%, ar gyfer y gronfa gyfan. Disgwylir i lefel ariannu 2016 wella i tua 91% gyda chanrannau cyflogwyr unigol yn amrywio o gwmpas y cyfartaledd yma. Yn anffodus, disgwylir i'r cynnydd yn y prif gyfradd (pwysau'r dyfodol) fod ychydig yn fwy na'r gostyngiad yn y gyfradd sydd yn adfer y diffyg hanesyddol.

Ni ellid proffwydo lefel diffygion cyflogwyr unigol, na lefel cyfraniadau. Er hynny, disgwylid y byddai mwyafrif cyflogwyr y Gronfa yn gallu dygymod gyda'r gwasgedd ar i fyny ar eu cyfraniadau pensiwn. Amlygwyd bod staff y Gronfa a chyflogwyr wedi gweithio er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ar gyfer y prisiad actiwaraidd mor gywir ac amserol â phosib.

Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod 2015/16 ynghŷd â'u cyfraniadau positif a chydwybodol yn ystod y flwyddyn

**PENDERFYNWYD DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN AM 2015/16**

**CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU Dydd Iau, 15 Medi 2016**

Dechreuodd y cyfarfod am AmserAmhenodol a death i ben am AmserAmhenodol

**CADEIRYDD**